

Pris: 40c

Papur Pawb

Rhagfyr 2007

Rhif 334



Ffair y Neuadd Goffa

A Oes Dyfodol i'r Neuadd Goffa?

Mor ddyledus ydym ni heddiw i'n cyndeidiau fod gyda ni Neuadd mor ardderchog yn y pentref yma. Bu pwyllgor, nôl yn nechrau'r ganrif ddiwethaf, yn trafod cryn dipyn sut fyddai orau i goffâu y rhai hynny a gollodd eu bywyd yn y Rhyfel Cyntaf. Roedd rhai eisiau Cof Golofn a rhai eisiau Neuadd. Mae ein dyled yn fawr iddynt am ddewis mor ddoeth a chodi un o'r Neuaddau Coffa gorau yng Ngheredigion.

Eu dadl dros godi neuadd oedd fel bod yr Eglwys ar capeli yn medru cynnal eu gweithgareddau ynddo, yn lle eu cynnal mewn tŷ addoliad. Roedd llawer iawn o eisteddfodau, dramâu a chyngherddau yn cael eu cynnal amser hynny yn y capeli a gallai fod yn le anwaraidd iawn os byddai rhain yn mynd ymlaen ar ôl deg o'r gloch y nos, pryd oedd y tafarndai yn cau. Roedd ein cyndeidiau yn gofidio'n arw bod hyn yn mynd ymlaen yn Nhŷ Dduw. Felly codwyd y Neuadd yn nauddegau'r ganrif ddiwethaf gyda llawer iawn o lafur cariad, a gwnaed cyfansoddiad manwl i'r Neuadd.

Un o'r rheolau yma yw bod dauddeg pedwar o aelodau i fod ar bwyllgor rheoli'r Neuadd Goffa. Ni fu hyn yn broblem o gwbl yn ystod y ganrif ddiwethaf, roedd y bobl ieuainc yn barod i gymryd lle y rhai hŷn o hyd, a chafwyd swyddogion arbennig o dda ar hyd y ganrif: pobl yn rhoi

eu llafur a'u hamser yn rhad ac am ddim er lles y Neuadd. Ond O, beth sy'n digwydd y ganrif yma? Rydym wedi methu cael ysgrifennydd/es ers blwyddyn, a dim ond saith aelod oedd ym mhwyllgor rheoli'r Neuadd Goffa ym mis Tachwedd diwethaf, ar rheiny bron i gyd wedi cyrraedd oedran yr addewid. A yw hi'n iawn i roi'r fath gyfrifoldeb ar ysgwyddau mor ychydig? ...ar fath fater mor ddyrys oedd gyda ni i'w drafod y noson honno,

mae'n rhaid i rywbeth newid yn go fuan. Mae 'na argoelion fod pethau yn dechrau newid yn barod gan fod rhai cymdeithasau wedi dewis peidio dod i'r Neuadd a chynnal eu gweithgareddau mewn tafarn. Mae'n wir gall hyn ddatrys ein problem, os wnaiff pawb yr un fath ni fydd eisiau pwyllgor na swyddogion ar y Neuadd wedyn. Rhaid i ni gofio fod y Neuadd yn Neuadd Goffa bob dydd o'r flwyddyn, nid ar Dachwedd 11eg yn unig. Ai

dyma beth ydym ni eisiau i'r dyfodol? Gobeithio ddim. Mae ein dyled i'n cyndeidiau yn haeddu gwell. Gadewch i ni, efo'n gilydd, roi dipyn bach mwy o ymdrech yn 2008.

Gwilym Jenkins

Diolch i Mr Gwilym Jenkins am dynnu ein sylw at sefyllfâr Neuadd Goffa. Beth yw barn darllenywyr *Papur Pawb*? Rhowch wybod i ni.

[Gol.]

Llwyddiant yn yr Ŵyl



Côr buddigol Ysgol Tal-y-bont yn yr Ŵyl Cerdd Dant - adroddiad tud. 7

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
Tynnu lluniau:		
Teipyddes:		
Bont-goch:	GOHEBYDDION LLEOL	
Parsel Henllys:	Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch	832295
Eglwysfach:	Dilys Morgan, Alltgoch	832498
Taliesin:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Tal-y-bont:	Mai Leeding, Glannant, Taliesin	832672
	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog	(01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont	
Is-gadeirydd:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	832384
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodaeth:	Aileen Williams, Maesmeillion	832438
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanygrifiadau)	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyron

DIOLCH

Dymuna Pwyllgor Cenhadol Chwirydd Henaduriaeth Gogledd Aberteifi ddiolch yn ddiffuant iawn am y gefnogaeth ardderchog i'r Bore Coffi a gynhaliwyd yn Neuadd y Waun fore Sadwrn, Hydref 20fed.

Ar y bore hydrefol braff hwn daeth nifer da iawn ynghyd (yn frodyr a chwirydd) i brynu nwyddau, i fwynhau paned a sgwrs ac i gyfrannu at yr Achos sef Hosbis HIV/AIDS, Ysbyty Durtlang, Mizoram, Gogledd-ddwyrain India.

Cyflwynwyd Mrs Eirwen Llwyd Jones, ein gwraig wadd, yn gynnes iawn gan Miss Beti Griffiths (Llywydd y Pwyllgor) a chyflwynwyd blodau hardd i Mrs Jones ar derfyn ei hanerchiad gan Mrs Gladys Adams (Trysorydd y Pwyllgor).

O ganlyniad i'r ymdrech arbennig hon, trwy gyfraniadau gan unigolion ac eglwysi, fe godwyd y cyfanswm anrhydeddus o £1,800. Fe fydd hyn yn hwb arbennig i'r gwaith yn Ysbyty Durtlang.

Diolch yn fawr i bawb.

Iola Alban (Ysgrifennydd)

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau o fewn y gymuned. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at y Clerc, Gwilym Huws, Pengwern, Tal-y-bont SY24 5EN, erbyn dydd Gwener 1af o Chwefror 2008 fan bellaf.

RHAGHYSBYSIAD EGLWYS DEWI SANT, TAL-Y-BONT Cynhelir

BORE COFFI
ar fore Sadwrn, 12 Ionawr
yn y Neuadd Goffa
am 10.30 o'r gloch
Pris mynediad: £2 (oedolion);
plant am ddim
Stondinau/Raffl
Croeso cynnes i bawb

YSGOL SUL BETHEL
'PAPA PANOFF'
NOS LUN,
RHAGFYR 24ain - 5.30 p.m.
BETHEL, TAL-Y-BONT
Croeso cynnes i bawb

**MERCHED Y WAWR
TAL-Y-BONT A'R CYLCH
CAPEL REHOBOTH
TALIESIN**
NOS SUL, 16 RHAGFYR
am 6.00
NOSON O GAROLAU
gan Gymdeithasau'r Cylch
Croeso cynnes i bawb

CYMDEITHAS SIOE TAL-Y-BONT GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Neuadd Goffa Tal-y-bont
8.00 yh - Nos Fercher, 19 Rhagfyr
CROESO CYNNES I BAWB

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personal

Martin Davis
14-y-coed, The Taliesin, MACHYNLLETH
Ffôn/Ffacs +44 (0)1297 832239 afiaith@aol.com

Dyddiadur

RHAGFYR

- 16 **Bethel 10 Gweinidog** (Cymun)
Narareth 10 R.H. Lewis (Bethel)
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch. Noson o garolau ac eitemau gan gymdeithasau Tal-y-bont a'r cylch, Capel Rehoboth, Taliesin, 6 o'r gloch
- 18 **C.Ff.I. Canu Carolau**
Eglwys Dewi Sant - Llandre (unedig), Carolau 7 p.m.
- 19 **Gyrfa Chwist Sioe Tal-y-bont.** Neuadd Goffa Tal-y-bont, 8 p.m.
- 21 **Gyrfa Chwist** flynyddol Neuadd Penllwyn Capel Bangor
- 23 **Bethel 2 Gweinidog**
Nasareth 5.30 Plant Bethel
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 10 Llangorwen (unedig), Carol a llith
- 24 **Eglwys Dewi Sant.** 11.30 Llangorwen - Cymun Bendigaid
- 25 **Bethel 10 Gweinidog**
Eglwys Dewi Sant. 8 Cymun Bendigaid (Tal-y-bont)
- 30 **Bethel 6 Gweinidog**
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 10 Llandre (unedig), Cymun Bendigaid

IONAWR

- 3 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** Cinio Blwyddyn Newydd, Clwb Golff y Borth

- 6 **Bethel 10 Gweinidog**
Nasareth Uno yn Bethel
Rehoboth 10 Dr John Hughes
Eglwys Dewi Sant 2.30 Cymun Bendigaid
- 13 **Bethel 2 Gweinidog** (Cymundeb)
Nasareth Uno yn Bethel
Rehoboth 10 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Cymun Bendigaid

Cinio Blynyddol C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch

Gwesty'r Marine,
Aberystwyth
Nos Wener, 18 Ionawr
7.30yh
Croeso cynnes i bawb

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i fy ffrindiau a holl ddarllenwyr
Papur Pawb oddi wrth Kathleen Richards, Bryn, Tal-y-bont. Nid wyf yn medru danfon cardiau eleni, ond byddaf yn rhoi cyfraniad tuag at elusen.



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwyn, Fal, Sara ac Ian.
Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Gwilym ac Eleri Huws
832231. Ebst: gehpengwern@yahoo.co.uk
Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn 4 Ionawr a bydd y papur ar werth dydd Gwener 11 Ionawr.

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

FFAIR NADOLIG Y NEUADD GOFFA

Cynhaliwyd Ffair Nadolig y Neuadd b'nawn Sadwrn Tachwedd 24ain. Cafwyd cefnogaeth dda unwaith eto eleni gan y mudiadau sydd yn defnyddio'r Neuadd a throdd nifer dda o'r cyhoedd i mewn am banded a sgwrs ac i brynu o'r stondinau.

Ar ddiwedd y dydd codwyd £1100 i goffrau'r neuadd fydd yn help mawr i gadw pris llogi i lawr a thuag at gostau cydymffurfio gyda rheolau cynyddol iechyd a diogelwch sydd yn sylweddol bob blwyddyn.

Felly mae pwyllgor rheoli'r neuadd yn ddiolchgar iawn i bawb a'n cefnogodd – i'r mudiadau drefnodd y gwahanol stondinau, i'r rhai gyfrannodd at y nwyddau a'r gwobrau raffl ar y stondinau ac i'r rhai gyfrannodd y bwyd ac a fu yn brysur yn y gegin.

CYFARFOD Y CHWIORYDD, REHOBOTH

Gan fod cymaint ohonom wedi mwynhau paentio ar delf y tymor diwethaf penderfynwyd ailymweld â gweithdy Helen, 'Blue Island Ceramics' yn Ynyslas ar brynhawn Mawrth, 13 Tachwedd. Braff oedd cael cwmni y Parchedigion Judith a Wyn Morris a dwy aelod newydd, sef Barbara Jenkins ac Alwen Griffiths i'n plith. Roedd pawb i weld yn mwynhau ac yn teimlo'n fwy hyderus a mentrus y tro yma. Cafwyd cyfle i ymlacio a chymdeithasu dros de a baratowyd gan Helen. Talwyd y diolchiadau gan Eirlys Jones, ein llywydd. Bu yn brynhawn difyr dros ben ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld y darnau gorffenedig!

GWELLHAD BUAN

Dymunwn wellhad buan i Mrs Myfanwy Rowlands, Hafod Lasau, Taliesin sydd bellach gartref ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais. Hefyd i Graham Briddon, Tre'rddôl sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd, ac i Vera Lewis, Pencae, Taliesin sydd yn awr gartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

CROESO NÔL

Mae Edna a Non wedi cyrraedd gartref o Batagonia erbyn hyn ac wedi cael amser arbennig iawn. Rydym i gyd yn edrych ymlaen i gael noson yn eu cwmni a chael clywed yr hanes i gyd.

Pobl a Phethe



CINIO BLYNYDDOL Y SIOE

Cynhaliwyd cinio blynyddol Sioe Talybont yng ngwesty'r Llew Du nos Sadwrn, Rhagfyr y cyntaf. Cafwyd noson i'w chofio, pryd ardderchog a chanmoliaith mawr gan bawb. Evan Jenkins, Carregcadwgan y Cadeirydd oedd wrth y llyw a'r wraig wadd oedd Miss Beti Griffiths, Lleifior, Llanilar ac yn ôl ei harfer cafwyd noswaith wefreiddiol yn ei chwmmi, cymysgedd o'r dwys a'r doniol, roedd gwranddo ar y dalent annwyl anhygoel hon yn donic i bob un ohonom. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd o'i amser i drefnu noson gofiadwy.

Bob Williams

SWYDD NEWYDD

Dymuniadau gorau i Mrs O'Donnell, Bancyfelin, Tal-y-bont ar ei swydd newydd gyda Cynulliad Cymru. Bydd Mrs O'Donnell yn mynd o amgylch Cymru yn arolygu cartrefi henoed.

CYDYMDEIMLO

Y mae nifer o ddarlennwyr a chyfranwyr *Papur Pawb* wedi bod mewn profedigaethau yn ystod y mis. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mrs Enid Gruffydd, Bryngwyn, Tal-y-bont ar golli ei chefnider; â Mrs Eirlys Jones, Maes y deri ar golli ei brawd yng nghyfraith ym Menrhyn-coch; â Lee Jones, 10 Maes y deri ar farwolaeth ei dad, Mr Tom Jones. Bu Mr Tom Jones yn reolwr fferm ar fferm Gelli Angharad am sawl blwyddyn.

GWELLHAD BUAN

Gobeithio eich bod chi Mandy Jones, 96 Maes y Deri, Tal-y-bont yn gwella wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Hefyd anfonwn ein cofion cynhesaf at

Mrs Gwyneth Evans, Tyrrel Place, Tal-y-bont sydd yn dal yn Ysbyty Bronglais. Yno hefyd ers pythefnos y mae Mr Jim Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont – brysiwch chithau i wella.

MARWOLAETH

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth un o gymeriadau Tal-y-bont, Mr Sid Titman, Maes-y-deri. Cydymdeilwn gyda'i deulu a'i ffrindiau. Bydd teyrnged iddo yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o *Papur Pawb*.

SIOE 'ANNIE'

Llongyfarchiadau i ddau actor ifanc o Dal-y-bont a fu'n perfformio yn y sioe 'Annie' ar ddechrau fis Rhagfyr. Mae Sam

Ebenezer a Jenô Lewis yn aelodau dawnus o gwmni 'Theatre Stars' sy'n hybu gwaith perfformio yn ardal Aberystwyth.

Cyfarwyddwraig gerdd y sioe oedd Eleanor Powell, Brynhyfryd, Tal-y-bont.

SIOE 'PLAS DU' PENWEDDIG

Llongyfarchiadau mawr i Ysgol Gyfun Penweddig ar eu cynhyrchiad gwefreiddiol o 'Plas Du' yn ystod wythnos olaf mis Tachwedd. Roedd y sioe o safon uchel iawn a mawr oedd mwynhad y gynulleidfa ar Dachwedd 22ain pan oedd gohebydd *Papur Pawb* yn bresennol! Cyfrannodd nifer o ddisgyblion lleol tuag at lwyddiant y sioe, yn eu plith Gwydion a Lois Jones, Elan Elidyr, Sam Ebenezer a Rhian Jones o Dal-y-bont ac Elen Jones o Dre'r-ddôl. Chi i gyd yn haeddu anrheg arbennig gan Sion Corn eleni!

BEDYDD

Pnawn Sul 25 Tachwedd yng nghapel Bethel, Tal-y-bont, gyda'r gweinidog, y Parch. Richard Lewis yn gweinyddu a lluo o berthnasau a ffrindiau'n bresennol, bedyddiwyd Efa Fflur Saunders-Jones, merch Catrin a Siôn, Bwthyn y Fagwyr, Llandre. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

IAN A CARL

Cawsom ymateb oddi wrth Mrs Joan Jones, Penparcau am y llun yn y gyfres '25 mlynedd yn ol' yn rhifyn Hydref. Roedd y ddau fachgen bach yn y llun, Ian a Carl Evans yn arfer byw yn 22 Maes y Deri. Mae'r ddau yn neiaint i Mrs Jones ac Ian nawr yn byw yn Sheffield a Carl yn yr Hen Ysgol Penparcau.

PASIO PRAWF GYRRU

Gwylwch eich hunain fodurwyr – mae Yvette Evans, Bryn Eleri, Tal-y-bont newydd basio ei phrawf gyrru. Da iawn ti Yvette.

M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating

Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bersiyrwyr;
Yswiriant Iawr;

 Cysylltwch â Ni yn gyntaf ar
01974 282824 / 07773978352

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

Cylch Meithrin



Ers sawl blwyddyn bellach mae'r ysgol a'r Cylch Meithrin wedi cefnogi apêl 'Operation Christmas Child' drwy ddanfôn bocsys 'sgidiau i blant' mewn gwledydd sydd wedi cael eu effeithio gan newyn, rhyfel neu glefyd. Eleni danfonwyd 40 o focsys.



Ar y 31ain o Hydref roedd y Neuadd Goffa yn llawn cymeriadau brawychus wrth i'r Cylch Meithrin gynnal parti Calan Gaeaf. Daeth tyrfa niferus i gefnogi'r noson. Diolch yn fawr iawn i Andrew Curran am noddi'r noson ac am feirniadu'r gystadleuaeth gwisg ffansi.

Enillwyr blynyddoedd 1 a 2 – Tyrone, Katie a Joe.

Nadolig y Cylch Meithrin

17 Rhagfyr 2007 yn y Neuadd Goffa am 6.30yh
Cyngerdd a Noson Goffi

BRYSIWCH WELLA

Gwellhad buan i ti Iestyn Roberts, 90 Maes y Deri, Tal-y-bont ar ôl dy ddamwain tra'n chwarae pêl-droed yn ddiweddar.

PENBLWYDD HAPUS

Dymuniadau gorau i chi Mrs Doris Pierce, 78, Maes y Deri Tal-y-bont ar ddathlu penblwydd go arbennig ar yr 2il o Dachwedd. Gobeithio y cawsoch ddiwrnod wrth eich bodd.

GENEDIGAETH

Llongyfychiadau i Huw a Margaret, Llety Ifan Hen, Bont-goch, ar enedigaeth ei merch Beca Angharad. Wyres fach arall i Emyr a Lisa.

SEFYDLIAD Y MERCHED, TAL-Y-BONT

Yng nghyfarfod blynyddol Sefydliad y Merched, Tal-y-bont, ail-etholwyd Mrs Sheila Talbot yn Llywydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Y swyddogion eraill yw: Is-lywydd: Mrs Annie Smith, Trysorydd: Mrs Gill Belton, Ysgrifennydd: Mrs Juliet Trudgill, Ysgrifennydd y Rhaglen: Dr Myrtle Parker. Wedi'r cyfarfod, cafwyd Swper Cynhaef blasus.

Ein siaradwr ym mis Tachwedd oedd yr Athro Peter Wathern o'r Brifysgol a roddodd gyflwyniad ar Erddi Siapan. Tynnwyd y lluniau pan oedd yr Athro yn ymweld â Siapan ar fusnes y Brifysgol ar wahanol dymhorau o'r flwyddyn. Diolchwyd iddo gan Mrs Janet Morgan.

Trefnwyd stonidin a raffl ar gyfer Ffair y Neuadd Goffa eto eleni.

Cynhelir y Parti Nadolig eleni ar 13 Rhagfyr ac ym mis Ionawr cynhelir cinio Blwyddyn Newydd yng Nghlwb Golff Borth ac Ynyslas.

Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Pantomeim Macsen

Ar y 26/11/07 aeth holl blant Ysgol Tal-y-bont i weld pantomeim Nadolig yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth.

Enw'r pantomeim oedd stori Macsen ac roedd e'n byw yn Rhufain. Roedd y stori'n sôn amdano'n breuddwydio am ferch o'r enw Elen ac am ei daith yn dod i Gymru i chwilio amdani.

Enw'r cymeriadau oedd Elen, Macsemws, Pleb, Ffichdy Slei, Sacson a Menai. Roedd y dawnswyr yn ffantastig ac roedd y gerddoriaeth a'r canu'n wych hefyd. Roedd tua 10 cân wahanol a fy hoff gân i oedd 'Cerdded 5,000 milltir'.

Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o fynd i theatr i weld y panto. Diolch yn fawr.

Carwyn Hughes

Sioe Gerdd y Plas Du

Ar Dachwedd 22, aeth blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Penweddig i weld y sioe gerdd Y Plas Du.

Ar ddechrau'r sioe, roedd meirw byw yn gwneud dawns bach. Roedd y sioe am bobl ddrwg yn trio cael y Plas Du i'r meirw byw ond roedd y bobl neis eisiau ei ddefnydio fe hefyd.

Fy hoff gymeriad oedd Cassandra. Mwynheais i achos roedd y Sioe'n ddoniol ac yn gyffrous. Roedd hi'n neis gweld rhai o blant Ysgol Tal-y-bont yn rhan o'r perfformiad hefyd.

Ryan Hughes



Llongyfarchiadau mawr i bawb ym Mlwyddyn 6 am basio'r prawf beicio yn ddiweddar. Ardderchog!

Er mai yn 2010 y bydd Eisteddfod yr Urdd yn cael ei chynnal yng Ngheredigion, mae'r gweithgarwch codi arian wedi dechrau yn barod. Dyma lun o Deian Creunant, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, yn derbyn sic o £115 gan yr ysgol, cyfanswm y casgliad yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch a gynhaliwyd yn Eglwys Dewi Sant yn ddiweddar.

Ar ddydd Plant Mewn Angen, gwnaethom wisgo dillad fel pobl o wlad arall. Gwledydd fel Sbaen, Rwsia, China, ac roedd Seren fel rhywun o Begwn y Gogledd.

Amser chaware cawsom ni gacen a diod blasus iawn am 50c, diolch i'r Clwb ar ôl Ysgol. Cododd yr ysgol £50.49 ar y diwrnod. Roedd hi'n hwyl cael y cyfle i wisgo fel rhywun o wlad arall.

Leri Hughes



Ysgol Gymunedol Llangynfelyn

Noson Tan Gwylt

Ar Dachwedd 7fed, cafwyd noson lwyddiannus arall dan drefniadaeth y Gymdeithas Rieny Ac Athrawon. Cafwyd cawl hyfryd i dwymo'r bola, cystadleuaeth mygydau iasoer ac arddangosfa dan gwylt, dan ofal Malcolm Hayes, o gwmni Hayes Mckenzie Partnership, a wnaeth nodd i'r noson yn ogystal. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu cefnogaeth, ac i bawb arall a gyfrannodd i noson mor dda.

Plant Mewn Angen

Er mwyn codi arian i'r elusen hon, cafwyd diwrnod smotiog yn yr ysgol, lle roedd yn rhaid i bawb wisgo rhywbeth smotiog, a chafwyd helpa drysor. Bu'n ddiwrnod plaserus iawn, ac fe godwyd £54 punt i'r achos.

Sbri Di Ri

Bu plant CA 1 yng nghyngerdd Sbri Di Ri yn y Neuadd Fawr yn ddiweddar, a chafwyd llawer o hwyl yn canu a dathlu a mwynhau y canu ar dawnio. Un o brif uchafbwyntiau y noson oedd gweld Mrs Daniells ar y llwyfan yn canu ac yn jeifio i'r miwsig. Roedd yn brofiad unigryw a bythgofiadwy i bawb a oedd yno.

Plas Du

Cafodd plant yr ysgol lawer o fwynhad yn mynychu perfformiad o Plas Du, gan ddisgyblion Ysgol Penweddig. Roedd yn sioe raenus a chlyfar, ac yr oedd pawb wrth eu bodd.



Plannu Hadau

Cafwyd diwrnod llwyddiannus o blannu hadau coed dan ofal Ruth Brocklehurst, Ysgol y Goedwig, lle bu'r plant yn dysgu mwy am dyfu coed o hadau, ac yn cael eu dwylo yn fudr.



Bocsys Nadolig

Casglwyd bocsys esgidiau yn llawn trugareddau i blant a theluoedd anghenus eleni eto, a'u trosglwyddo i elusen Blythswood. Braff oedd gweld y plant a'u rhieni yn cyfrannu yn hael at yr achos da hwn.

Pontio â Phenweddig a Thalybont

Braff iawn oedd cael rhannu dau ddiwrnod gyda blwyddyn 6 Ysgol Talybont, pan aethom i Ysgol Penweddig i gymryd mantais o'u hadnoddau Technoleg Gwybodaeth ac Ymarfer Corff. Roedd yn gyfle da i'r plant ddod i adnabod ei gilydd yn well, ac hefyd yn gyfle i ddysgu llawer mwy am gyfrifiaduron ac ymarfer corff. Diolch yn fawr i Dalybont ac i Benweddig am y profiad gwych hwn, ac edrychwn ymlaen i'w wneud eto yn fuan.

HEN FAMGU

Newyddion sydd yn siwr o fod wedi codi calon Mrs Gwyneth Evans, Tyrrell Place, Tal-y-bont yw genedigaeth ei gor-wyr. Ganed mab bach i Huw, ei hŵyr, a Charlotte yn Nhregarth, ger Bangor, a brawd bach i Tomos.

SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont, ar gael ei phenodi i swydd Uwch Gynorthwy-ydd Personél yn Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion. Bydd Megan yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Ionawr, a dymunwn bob llwyddiant iddi.



Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bampffed
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

NOSON GAROLAU

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Capel Rehoboth Taliesin
nos Sul – 16 Rhagfyr – 6.00pm

Canu carolau ag eitemau gan gymdeithasau lleol
Gwneir casgliad tuag at gartref plant amddifad yn y Zambia
Croeso cynnes i bawb

Os an ddesu neu besu mmi
**CAMBRIAN
CABS**

Ynghylch Pen y Wawr
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRO LLEOL

H. LLOYD WILLIAMS
CYNINAL A CHADW GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN,
GOSOD DECKING A SLABIAU

DOES DIM YN ORMOD O WAITH!

32 Bryncastell Ffôn: 01970 820699
Bow Street Symudol: 07966 105519

Ymgeisiwch nawr am Grant Biosffer Dyfi

Mae Biosffer Dyfi wedi derbyn grant gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo'r ardal arbennig yma i ddatblygu elfennau sy'n ymwneud â'r amgylchedd, megis newid yn yr hinsawdd a/neu gadwraeth natur.

Mae grantiau gwerth rhwng £50 - £1000 ar gael i wario'n lleol cyn diwedd Mawrth 2008. Gall gweithgareddau addysgol fod yn gymwys, ynghyd a phrosiectau ymarferol fel gerddi natur a chadwraeth egni.

Gellir gwario'r grantiau gan fusnesau, grwpiau cymunedol, ysgolion neu unigolion, dan yr amod fod y gweithgaredd yn ychwanegiad i unrhyw gyfrifoldebau statudol. Gall y costau hefyd gynnwys elfen o gyflog.

Gall y grantiau fod ar gael ar gyfer prosiectau sy'n cyfrannu i adnewyddu'r economi Gymraeg trwy wella'r amgylchedd lleol.

Cysylltwch â Delyth Richards ar 01654 703965 neu delyth@biosfferdyfi.org am ragor o wybodaeth a ffurflen gais. Brysiwch!

Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig

Cynhaliwyd cyfarfod yn Nyffryn Castell, Ponterwyd nos Sadwrn, Tachwedd 24, i ddathlu hanner can mlynedd sefydlu Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion ar Fai 13, 1957. Ni ellir gwerthfawrogi'r achlysur heb yn gyntaf ystyried ei chefnidir fel un o'r Pum Sir, sydd yn cynnwys Adran Fynydd y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig. Arfon dorrodd y garw ym 1945 trwy ymwrthod a defnyddio hyrddod anaddas y Gymdeithas Defaid Mynydd Cymreig a hyrwyddwyd gan y Weinyddiaeth Amaeth, wrth ffurfio Cymdeithas Defaid Mynydd Arfon. Pierce Owen, Y Ffridd, Dyffryn Nantlle; Frank Griffith, Y Bryn, Caernarfon a'r Athro E.J. Roberts, Coleg y Gogledd fu ar flaen y gad. Rhoddodd safiad E.J. Roberts ei gyfle i Gwynn Lloyd Williams i ddechrau ar ei daith arloesol o gofnodi'r ddiadell fynydd yn Abergwyngregyn, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Arfon. Dyma'r fesen a blannwyd ym 1948, a dyfodd yn dderwen erbyn 1987, pryd y gwerthwyd hyrddod cofnodedig gyntaf yn y wlad hon gan CAMDA yng Ngheirniog Mawr, Pentrefoelas. Dyma'r ddiadell gnewyllog (*nucleus flock*) gyntaf i'w sefydlu yn y wlad hon o famogiaid dethol o'r Adran Fynydd yn Arfon, Dinbych a Meirion ym 1976. Enillodd Gwynn Williams Ddyfarniad George Hedley am ei gyfraniad i'r diwydiant ac yn sicr edmygedd a gwerthfawrogiad ei gyd-weithwyr yn yr Adran Fynydd am ei waith, yn fwy felly na chydabyddiaeth glae'r sefydliad amaeth yn Llanelwedd.

Ym 1958, penodwyd I.R. Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont yn Gadeirydd a W.J. Lewis, Rhosgoch yn Ysgrifennydd Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion. Dechreuwyd archwilio a chofrestru diadelloedd yn ddi-ymdroi, yn ogystal a threfnu arwerthiant blynyddoedd yr hyrddod. Cychwynnwyd ar y profion hyrddod sirol ym 1965 a phrofwyd pedwar o'r hyrddod blwydd gorau trwy eu hepil bob blwyddyn. Y trydydd cam fu troi hyrddod profedig at famogiaid dethol mewn cynlluniau cydweithredol neu logi hyrddod o ddiadelloedd fel Glanmerin, Glaspwll a Chwm Cilan, Llanrhaeadr ym Mochnant. Ym 1967, anfonwyd ŵyn hyrddod i'r prawf canolog ym Mangor. Bu ffald Penpompren, Tal-y-bont yn ganolfan i weithgareddau'r Gymdeithas am ddeugain mlynedd, trwy

garedigrwydd teulu Tyngraig. Yno byddai Ted Morgan, Perthog, Pen y Garn yn dethol yr hyrddod i'r profion ac yno y dychwelant i'w cneifio bob mis Mai. Cymdeithas fyw a gweithgar yw hi ac, er na chafwyd fawr o gefnogaeth o gyfeiriad Tregaron, ymaelododd nifer fechan yn ardal Ffair Rhos, dan ddylanwad William Owen, Tynddol. Collwyd rhai aelodau wrth iddynt droi at y defaid penfrith ond erys gweddill ffyddlon o fewn y gorlan heb laesu dwylo, ac er mai ychydig ydym erbyn hyn, daeth haul ar fryn. Enillwyd Tarian Perthi gan hwrdd o'r Winllan, Tal-y-bont yn y prawf canolog a chyflawnodd Mrs Beryl Evans gamp unigryw dros y Sir trwy ennill Cwpan Coffa Pierce Owen am y ddiadell orau yn y Pum Sir. Hi hefyd sydd yn dal Tarian Rhosgoch am y ddiadell orau o fewn y Sir, gwobr a roddwyd gan y teulu i gofio W.J. Lewis. Datblygiad gobeithiol oedd sefydlu'r ddiadell ganolog ar ffurf CAMDA ym Mhwllpeiran, sef CAMP (Cymdeithas Adfer Mamogiaid Pumlumon) gan yr aelodau.

Enoc Jenkins, Tyngraig oedd y cadeirydd yn y cyfarfod dathlu ac ef a gyflwynodd y gŵr gwadd, Gwyn Jones, Llys Maelgwn, Pen y Garn. Bu ef yn rhannol gyfrifol am sefydlu'r Gymdeithas ac yn cydweithio law yn llaw gyda'r ddau ysgrifennydd, W.J. Lewis ac Ieuan Morgan, Glanfrêd am chwe mlynedd ar hugain, cyn ymddeol ym 1984, fel cynghorwr yn ucheldir Ceredigion ac ar ffermio mynydd dros Gymru. Gareth Evans, Sŵn y Ffrwd, Bontgoch yw'r Ysgrifennydd gweithgar ers tro byd bellach, tra ni fu i Ddafydd Jenkins, Penpompren Uchaf, Tal-y-bont laesu dwylo ar ôl cyfnod hir fel Trysorydd. Nid oedd Glyn Vaughan, Rhiwarthen, y Llywydd ac un o'r hoelion wyth, yn gallu bod yno i ddathlu yn anffodus a gwelwyd ei eisiau. Ceisiodd y gŵr gwadd roddi'r cefndir hanesyddol i'r sefydlu, cyn nodi rhai cerrig milltir ar y daith o 1957-2007. Cymdeithas Gymraeg a gwerinol yw hi, heb sawr brenhinol o'i chwmpas. Sarnu'r iaith a wneir heddiw, os na achubir hi gan wladwyr yn arddel yr iaith lafar gyfoethog a phriod-ddulliau traddodiadol. Diolchodd i'r aelodau am eu cydweithrediad i wella tir a stoc, ac am fod yn gymaint cefn iddo mewn hindda a drycin.

Gwyn Jones



o'r chwith
Rhes ôl: Dyfed Glanrafon, Rhodri Moelglomen, Glyn Frondeg, David Alltgoch, Alan Penbanc, David Tyhen Henllys, Rhydian Tynant, Siarl Tynddraenen, Dilwyn Tynant, John Trefaes, Geoff Ffosybleiddiaid, Tegwyn Rhosgoch
Ail res: Mair Tynddraenen, Bob Penywern, John Pencwm, Monica Moelglomen, Sue Penywern, Dilys Alltgoch, Menna Trefaes, Beryl Glanrafon, Dafydd a Delyth Ceiro, Eira Ffosybleiddiaid, Eirwen Pencwm, Ken Coedgruffydd, Eileen Frondeg, Marion Tynant, Aldwyth Rhosgoch
Rhes flaen: Geraint Penpompren, Dafydd Penpompren (Trysorydd), Gareth Sŵn y Ffrwd (Ysgrifennydd), Enoc Tyngraig (Cadeirydd, ac ŵyr i I.R. Jenkins, y Cadeirydd cyntaf), Gwyn Jones (gŵr gwadd) ac Ann Jones, Llys Maelgwyn, Simon Moelglomen (is-gadeirydd), Gwilym ac Ann Llety'r Bugail, Gomer Fferm y Bont
ar y llawr: Llyr Penbanc, Dewi Tyngraig, Garmon Tyhen Henllys, John Penbanc
Yn anffodus, nid oedd Glyn Vaughan, Rhiwarthen, y Llywydd, yn gallu bod yno i ddathlu.

Codi'r to a chodi arian

Llongyfarchiadau mawr i Heulwen Astley a'r Raving Stompers ar gyrraedd y nod o gasglu £10,000 i Gronfa Cancr y Fron, Ysbyty Bronglais. Noson yng nghwmni John ac Alun a'r Ravin Stompers yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar nos Wener 16 Tachwedd oedd penllanwr gweithgareddau.

Roedd y Neuadd wedi ei haddurno yn bwrpasol ar gyfer y noson gyda baneri ac addurniadau Nadoligaidd dros y lle, ac roedd y byrddau wedi eu gosod o amgylch yr ystafell er mwyn gadael lle gwag yn y canol i'r rheini oedd eisiau ymarfer eu Dawnsio Llinell. Eleri James oedd yn croesawu pobol allan i ddawnsio ac yn cyd-lynu'r gwahanol eitemau, waeth roedd hon yn noson amrywiol dros ben.

Ocsiwn i ddechrau, a bargeinio brwd am nifer o wobrau, yna Heulwen yn cymryd y meic i alw pawb oedd eisiau gwers mewn dawnsio llinell. Nid oeddem i gyd wedi cofio ein hetiau cowboi, ein gwasgodau a'n crysau sic, ond doedd dim ots, gallech ddilyn camau hyderus y Ravin Stompers a gwrando ar y cyfarwyddiadau o'r llwyfan. Nid oedd raid i neb ddawnsio waeth roedd yn bleserus iawn eistedd o gwmpas y byrddau yn cymdeithasu ac yn gwrando ar John ac Alun, ac yn fwy pleserus fyth pan ddaeth saib i bawb helpu eu hunain i'r Bwffe ysblennydd a baratowyd gan Dilys Morgan. Roedd yno gigoedd a saladau a phob math o ddanteithion, gyda dewis helaeth o felysfwyd i ddilyn. Yn dilyn hynny tynnwyd y raffl gyda nifer o wobrau gwych iawn i'w hennill.

Bu'n rhaid i bawb godi o'i sedd wedyn i ymuno yn y Bingo Gwyddelig yn null y Ravin Stompers. Aeth y noson yn ei blaen gyda mwy o eitemau disgo'r Ravin Stompers a John ac Alun yn codi'r to i ddiweddu'r noson.

Diolch Heulwen am yr ymdrech i godi swm mor fawr o arian at achos teilwng iawn, a diolch am drefnu noson hwyliog i ni gyd gael mwynhau.

Os am ymuno yn nosbarthiadau Dawnsio Llinell Heulwen, dyma'r amserlen:

Llun Clwb Rygbi 7-10.00

Mawrth Neuadd Llangynfelyn 7.30-9.00

Iau Neuadd Tal-y-bont 7-10

Ffôn Heulwen – 832486



Heulwen gyda John ac Alun

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2007 – £12,700 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n cydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais ar gael oddiwrth: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: iola.apgwynn@tiscali.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 11fed 2008

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'



Cinio Diolch

Cynhaliwyd cinio nos Sadwrn Tachwedd 17 i ddiolch i Goronwy Jones, Glasgoed, am ei wasanaeth fel Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr o 1989 hyd ei ymddeoliad ddiwedd Medi 2007. Daeth nifer dda o Gynghorwyr a chyn-Gynghorwyr a'u partneriaid i'r wledd ym Mwyty Harry's a chafwyd noson deilwng o'r achlysur. Ar ran y Cyngor Cymuned, talwyd teyrnged i Goronwy am ei wasanaeth aruthrol i'r ardal gan Nest Jenkins, yr Is-gadeirydd. Cyfeiriodd at ei waith diflino i'r Cyngor dros gyfnod maith o flynyddoedd. Yn ystod mis Hydref eleni, er enghraifft, ac yntau eisoes wedi ymddeol fel Clerc, roedd i'w weld wrthi'n ddyddiol yn trwsio a phaentio meinciau cyhoeddus o gwmpas y pentref. Dyma'r math o ymroddiad a ddangoswyd gan Goronwy dros y blynyddoedd, a hynny'n ddiffwdan. Roedd Nest hefyd am gynnwys Tegwen yn y diolchiadau gan iddi hi fod yn gymaint o gefn i Goronwy ar hyd yr amser.

Yn briodol iawn, cyflwynwyd rhodd i Goronwy gan Megan Mai, a thusw o flodau i Tegwen gan Emyr Davies – ill dau yn Gynghorwyr trwy gydol tymor Goronwy fel Clerc. Wrth ddiolch i'r Cynghorwyr a'r cyn-Gynghorwyr am drefnu'r noson soniodd Goronwy iddo dderbyn gwahoddiad i ymgymryd â'r swydd dros 18 mlynedd yn ôl oherwydd y teimlai ei bod yn ddyletswydd arno, ond bu hefyd yn fraint iddo gael y cyfle i wasanaethu'r gymuned. Diolchodd yn ogystal am y gwmni'ath, y cyfeillgarwch a'r cymorth a dderbyniodd gan y Cynghorwyr dros y blynyddoedd. Wrth gloi'r noson, diolchodd Ellen ap Gwynn i Goronwy am ei waith graenus a threfnus fel Clerc, a dymuno'n dda iawn iddo ef a Tegwen yn y dyfodol.

Gwobr Gyntaf

Eleni, ar Dachwedd 10fed, cynhaliwyd Gwyl Cerdd Dant Cymru Ystrad Fflur a'r Fro ym Mhontrhydfendigaid.

Gwelwyd sawl cerbyd yn gadael Tal-y-bont wedi 7 o'r gloch y bore i gyrraedd y rhagbrofion yn Ysgol Uwchradd Tregaron mewn pryd.

Braf yw cael llongyfarch Parti Alaw Werin Ysgol Gymunedol Tal-y-bont, dan arweiniad Falyri Jenkins, ar ennill y wobwr gyntaf (roedd deg parti yn cystadlu yn y rhagbrawf)! Cyflwynwyd Tlws Ysgol Gynradd Llanddodged, sef plât hardd, i'r ysgol, i'w gadw am flwyddyn, yn ogystal a thystysgrif a thlws a luniwyd o ddarn o'r goeden ywen lle claddwyd Dafydd ap Gwilym ger Abaty Ystrad Fflur.

Yno hefyd yr enillodd Medi Fflur Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont y drydedd wobwr am ganu'r delyn mewn cystadleuaeth i blant ysgolion cynradd. Roedd Medi hefyd yn aelod o gôr telynau Ysgol y Delyn Bro Ystwyth a enillodd y 3edd wobwr yn yr ŵyl. Llongyfarchiadau mawr i ti Medi – roedd yn werth yr holl ymarfer ond doedd e?

Aeth y cystadlu ymlaen hyd oriau man y bore a gwelwyd sawl wyneb cyfarwydd o'r ardal yn aelodau o bartion gwerin, cerdd dant ac offerynnol ar y teledu. Llongyfarchiadau i Delyth Huws, Henllan, a Catrin Mai, Ty Gwyn, Tal-y-bont, aelodau o'r Parti Gwerin buddugol; Nigel Hardy a'i fab Gwilym o Dre'r ddôl, aelodau o'r Grwp Offerynnol buddugol, Robin Fuller, Pandi Fwrnais, aelod o gôr CF1 a gafodd yr ail wobwr a Gwenallt Llwyd Ifan, aelod o'r Côr Alaw Werin buddugol.

Un o'r beirniaid Cerdd Dant yn yr ŵyl oedd Mr Aled Lloyd Davies, taid Glain a Miriam, Ty Gwyn, Tal-y-bont. Eu mamgu hefyd, Mrs Neli Jones, oedd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith.



Medi Fflur Evans

Triawd y Blaid



Cynhaliwyd bore coffi gan Blaid Cymru yn y Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 1 Rhagfyr er mwyn i drigolion yr ardal gwrdd â'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn. Hefyd yn bresennol oedd y Gweinidog Cefn Gwlad Elin Jones, ar ymgeisydd Seneddol Penri James.

Mis Mark

Roedd yn bleser mynychu Gŵyl y Cofio'r Llang Prydeinig yn Llanbedr Pont Steffan ar ddechrau mis Tachwedd a dweud ychydig o eiriau i gefnogi Ymgyrch Anrhydeddwech y Cyfamod y Llang. Mae'r Llang wedi amlygu nifer o'r anghyfiawnderau sy'n wynebu llawer o gyn-filwyr, megis darpariaeth iechyd, iawndal a thai. Roedd yn briodol i amlygu hyn ar y penwythnos teimladwy hwn pan gofiwn yr aberth eithaf. Cefais gyfle i fynychu'r orymdaith yn Aberystwyth hefyd: ffordd dda o gofio, gyda the yn Neuadd Goffa, Penparcau, a chinio nos y Llang yn y Borth.

Roedd yn bleser gennyf groesawu'r tîm o Radiograffyddion o Fronglais a oedd wedi ennill gwobr Tîm Radiograffyddion y Flwyddyn - gwobr ledled y DU. Rydym yn gwybod bod gennym staff GIG rhagorol ac roedd yn dda gweld eu bod yn cael cydnabyddiaeth swyddogol am eu gwaith. Roedd yn bleser gennyf fynychu agoriad Canolfan Plant Aberystwyth yn Aberystwyth hefyd.

Gall y Senedd fod yn loteri weithiau ac mae'n dda cael ennill. Roeddwn yn ddigon lwcus i allu cael trafodaeth ar ariannu'r heddlu yn Nyfed/Powys. Mae'r Gweinidog wedi cytuno i gwrdd â mi a chynrychiolwyr eraill unwaith y bydd y Senedd wedi cwblhau'r arolwg o opsiynau ariannu, a bydd rhaid iddo gadw at y cytundeb hwn. Rwy'n poeni y gallai'r Gronfa Plismona Gwledig ddod i ben a byddai hyn yn ergyd drom i ni gyda cholledion swyddi rheng flaen. Pe bai hyn yn digwydd byddai'n hollol eironig gan mai Heddlu Dyfed-Powys yw un o'r adrannau heddlu sy'n perfformio orau yn y DU. Unwaith eto, mae'r Llywodraeth yn dangos cyn lleied y mae'n gwybod am gefn gwlad, a dyma beth rwy'n parhau i ddweud yn fy ymgyrch i achub swyddfeydd post gwledig.

Rwy'n parhau i boeni nad yw Llywodraeth Lafur yn fodlon rhoi iawndal i Ffermwyr Cymru wedi'r argyfwng Clwy'r Traed ar Genau am y rheswm mai'r llygrwr ddylai dalu ac mae ei gyfrifoldeb ef yw'r cyfleuster ymchwil Pirbright. Ar sail hyn, aeth fy nghydweithiwr, Roger Williams AS, a finnau, ynghyd â chynrychiolwyr o'r ddau undeb ffermio, i gwrdd â Gweinidog Swyddfa Cymru, Huw Irranca Davies, i bwysleisio'r achos. Codais y mater mewn ciniawau pleserus gyda Chymdeithas Ceffylau Gwedd Gorllewin Cymru a Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.

Yn agosach i gartref yn Llandre, roeddwn yn falch clywed bod Network Rail, wedi i mi roi pwysau arnynt, wedi cytuno i ddychwelyd i'r pentref i gwrdd â'r gymuned leol - i ateb cwestiynau am y mast rheilffordd arfaethedig unwaith eto. Roedd yn gyfarfod da, er i mi gyrraedd yn hwyr gan fod y trênn yn hwyr yn gadael Llundain. Roedd yn braf gweld gwleidyddion lleol o bob plaid yn cydweithio er lles eu cymunedau lleol gan atgoffa Network Rail o'u cyfrifoldebau. Rwy'n gobethio bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Llanbadarn Fawr a Bow Street nawr hefyd.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Cynhaliwyd dau gyfarfod pwysig ar faterion pwysig yng Ngheredigion yn ystod y mis diwethaf. Yn gyntaf, fe ddaeth y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones AC, i fynychu cyfarfod a oedd wedi ei drefnu gan Gweithgor Dyffryn Aeron yn Theatr Felinfach. Roedd colli dau gyflogwr mawr yn lleol yn ergyd drom i'r economi leol yn Nyffryn Aeron felly rwy'n falch iawn bod y Gweinidog wedi cydnabod gwaith pwysig y Gweithgor i geisio adfywio'r economi. Rwyf innau hefyd yn awr yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio gyda'r Gweithgor i ddatblygu eu syniadau ar gyfer creu swyddi newydd hirdymor yn yr ardal.

Yn fwy diweddar, fe drefnais gyfarfod arall gyda'r Gweinidog, Ieuan Wyn Jones AC, yn y Senedd er mwyn ceisio ei ddarbwylllo i beidio â chau Cyffordd Tesco yn Aberteifi yn barhaol. Fe wahoddais gynrychiolwyr o Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberteifi i fynychu'r cyfarfod er mwyn iddynt hwythau gael mynegi eu barn yn uniongyrchol i'r Gweinidog. Er na wnaeth y Gweinidog unrhyw addewid y byddai'n cytuno i newid penderfyniad ei ragflaenydd i gau'r Gyffordd yn barhaol, fe ddywedodd y byddai'n ailedrych ar y sefyllfa.

Mae sicrhau dyfodol ein cymunedau gwledig wedi bod ar flaen fy meddwl yn ddiweddar wrth i Lywodraeth Cymru'n Un lansio'r gyllideb ddrafft ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig, rwy'n falch fy mod wedi gallu neilltuo arian penodol yn y gyllideb tuag at gynorthwyo ffermwyr ifanc sydd am ddechrau ym myd amaethyddiaeth. Bydd yna hefyd £27 miliwn yn cael ei roi tuag at ddileu TB sy'n achosi cymaint o drafferth i'n ffermwyr y ddyddiau yma.

Yn olaf, hoffwn gymryd y cyfle hwn i longyfarch pawb wnaeth sicrhau bod Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur yn cymaint o lwyddiant. Roedd hi'n ŵyl gofiadwy iawn - yn enwedig gan i Gôr ABC ennill wobwr gyntaf! Llonyfarchiadau i bawb!



TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos



Nabod

Rwy'n ofni nad oes gen i rhyw lawer o allu mewn arlunio a phan byddaf yn ymweld a orelau byddaf yn rhyfeddu at ddawn paentwyr ac arlunwyr. Wel, y tro hyn cawn gyfle i ddod i adnabod arlunydd ifanc sy'n prysur gwneud enw iddi hun, sef Llio James, Llannerch, Tal y Bont. Gan bod Llio i ffwrdd yn y coleg yn Manceinion, electroniadd oedd yr holi ond dim gwaeth am hynny a diolch iddi am ei hymatebion llawn a diddorol.

Pryd a sut cychwynnodd dy ddiddodeb mewn celf?

Mae'r diddordeb mewn celf wedi bod yna erioed, roeddwn yn mwynhau celf yn yr ysgol gynradd ac uwchradd. Nes i benderfynnu mynd ymlaen i wneud cwrs sylfaen Celf a Dylunio yn UWIC Caerdydd gan fy mod eisiau parhau yn y byd celfyddydol ond ddim yn siwr pa ffordd i ddilyn. Fy mhrif diddordeb yn yr ysgol oedd cynllunio a phan oeddwn yn dechrau y cwrs sylfaen roeddwn yn meddwl fy mod am fynd i'r byd graffeg a dylunio. Hanner ffordd trwy'r flwyddyn sylweddolais mai tecstiliau oedd y maes i mi, ac felly er mae dim ond blwyddyn oedd y cwrs yng Nghaerdydd, roedd yn flwyddyn hanfodol, gan ei bod wedi arwain at benderfyniad allweddol.

Oedd na ddylanwad pwysig – athro, person arall neu arlunydd?

Mae'n hynod anodd dweud beth sydd wedi dylanwadu, ond rwy'n credu mae'r peth pwysicaf rwyf wedi dysgu, yw bod hi'n bwysig cadw llygad ar bob dim. Efallai un diwrnod byddaf yn hoffi gwaith artist, ond diwrnod arall bydda i ddim mor siwr. Weithiau rwy'n gweld poster neu ffenest diddorol mewn siop, ac mae lliw neu ddarn o ffabrig yn y siop yn cynnig syniad.

Beth am y cwrs rwyf yn dilyn nawr?

Dwi'n astudio BA (Hons) Tecstilau yn Mhrifysgol Metropolitan Manceinion – yr hen goleg celf. Rwy ar ganol fy ail flwyddyn. Yn ogystal a bod yn y stiwdio o naw tan bump bob dydd, mae yna lyfr scetsio, dyddiadur wythnosol a llyfr lliw i gwblhau. Mae'r cwrs wedi ei rannu i dri maes, print, gwehyddu a gweu. Yn y flwyddyn gyntaf mae'r cwrs wedi rhoi y cyfle i mi ddysgu am wahanol dechnegau y tri maes. Yn yr ail flwyddyn rwyf wedi penderfynnu arbenigo mewn gwehyddu ac mae na gyfle i fod llawer mwy annibynnol a dwi'n cael dod a steil personol i'r gwaith. Er fy mod i wedi arbenigo mewn gwehyddu mae'r cwrs yn ddigon agored i mi fynd at un or meusydd eraill e.e cyfuno gwehyddu a phrint. Yn y drydedd, y gobaith yw dod a'r sgiliau at eu gilydd a chreu sioe diwedd y flwyddyn bydd yn dal llygaid y staff a'r cyhoedd. Ar hyn o bryd tua 35 sydd ar y cwrs. 'Rwy'n gweithio mewn stiwdio agored lle mae gen i ddesg unigol ond hefyd mae'n bosib gweld gwaith myfyrwyr yr holl flynyddoedd eraill ac mae hynny'n ysbrydoliaeth. Mae llawer o bobl yn cysylltu tecstiliau gyda ffasiwn ond mae'r cwrs yn hynod o hyblyg. Mae'n bosib i mi greu ffabrig ar gyfer dodrefnyn, neu gynllunio print ar gyfer llenni. Ar hyn o bryd rwy'n gwehyddu ffabrig bydd yn cael ei ddefnyddio fel tei i ddynion, ond efallai byddaf yn gwneud gwaith mwy rhydd a chelfyddydol ar gyfer y prosiect nesaf.

Wyt ti'n hoffi Manceinion?

Mae Manceinion yn FFAB! Pan oeddwn yn dewis rywle i astudio roedd yna lawer o bwysau i mi fynd i Ludain fel prif ddinas y byd celf a dylunio. Oni'n gweld e'n ormod o 'naid' o Dalybont i Lundain, ac ar y pryd, doeddwn i ddim yn barod i fynd i ddinas mor enfawr. Mae Manceinion yn gyfuniad gwych o fywyd dinas fywiog a bywyd campws clos a chyfeillgar.

Mae 80,000 o fyfyrwyr ym Manceion, gyda'r mwyaf o fyfyrwyr mewn un dinas yn Ewrop. Mae yna naws ifanc iawn yn y ddinas, gyda nifer o bethau celfyddydol yn digwydd pob nos. Yn bersonol mae hyn oll yn golygu fod y lle'n berffaith i fi - yn ddinas ond ddim yn rhy fawr i ferch o Dalybont.



Beth am y wobwr enllaist yn gynharach eleni?

Ar ol gorffen fy mlwyddyn sylfaen yng Nghaerdydd, roedd y gwaith celf yn eistedd gatref yn hel llwch (doedd mam ddim yn hapus!) felly penderfynais roi y gwaith gorffenedig yn y gystadleuaeth Hud a Lledrith Llyn ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog. Roedd y darnau gorffenedig yn cynnwys sgwariau o ffelt, wedi eu hysbrydoli gan y mor a harbwr Aberswyth. Roeddwn wedi torri i mewn i'r ffelt a gweithio gyda gwahanol ffabrigau. Bues yn ddigon lwcus i ennill gwobr artist ifanc ym Mhlas Glyn y Weddw - £750. Roeddwn wedi rhoi'r gwaith i mewn i'r gystadleuaeth ar hap, heb ddisgwyl dim. Pan welais y gwaith wedi ei fframio ar y wal, roedd hi'n deimlad rhyfedd iawn. Roedd y gwaith yn edrych gymaint mwy proffesiynol.

A nawr mae dy waith yn cael ei arddangos mewn oriel ym Mhwlleli. Sut digwyddodd hyn?

Gwelodd Llio a Myrddin ap Dafydd, perchnogion oriel Tonnau ym Mhwlleli fy ngwaith ym Mhlas Glyn y Weddw. Mae oriel Tonnau yn llawn amrywiaeth, o brintiau Kyffin Williams i waith disgyblion chweched dosbarth Ysgol Pwllheli. Roeddent yn hoffi fy ngwaith ac fe gysylltodd Myrddin i gynnig lle i mi arddangos gwaith newydd yn yr hydref Rwy'n gweld hi'n anodd cyfuno gwaith arbrofol coleg a gwaith tu allan ond fe es i ati i wneud chwe darn arall i'r arddangosfa dros yr haf, tri llun ffelt a tri darlun paent. Fy nghyd-artistiaid yn yr arddangosfa yw Catrin Williams a Bethan Clwyd. Unwaith eto roedd hi'n hynod ryfedd gweld y gwaith ar y wal, a mwy rhyfedd fyth pan werthais i rhai o'r lluniau. Erbyn hyn rwyf wedi gwethu y chwe darn, ac yn hynod o hapus.

Sut wyt ti'n gweld dy yrfa yn datblygu?

Wel, mae'r ail flwyddyn yn mynd yn dda yn y coleg, a digon o waith i gadw fi allan o drwbwl! Dwi'n dal yn ansicr beth hoffwn ni wneud ar ol gadael y Coleg. Mae gyrfa yn y byd cynllunio yn mynd i fod yn anodd ond y cyfeiriad yna sydd yn fy nennu. Ar hyn o bryd rwy'n cadw meddwl agored ac yn mwynhau pob munud yn Manceinion.

GIE

Sul y Cofio

Yn y Neuadd Goffa yn ôl yr arfer cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Cofio, Tachwedd 11eg 2007 dros bawb a wasanaethodd, ac yn arbennig am y rhai o'r gymuned a gollodd eu bywydau, yn y ddwy ryfel byd.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig D. Brian Thomas. Cadwyd dwy funud o ddistawrwydd am unarddeg o'r gloch. Darllenwyd rhestr o enwau'r rhai a fu farw'n y ddwy ryfel byd gan Mr Goronwy Jones a gosodwyd y torchau pabi ar y coflechi gan Mr Bob Southgate a Mrs Doris Pierce. Canwyd yr utgorn olaf gan Dennis Foster a Mrs Elizabeth James fu'n cyfeilio ar y piano. Yn ystod y gwasanaeth casglwyd y swm o £108.85 tuag at Llang Brydeinig Frenhinol.

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhagwelediad a'r haelioni roddwyd mewn arwydd o ddiolchgarwch gan y pentrefwyr yn dilyn y Rhyfel Mawr ac a alluogwyd i'r Neuadd Goffa gael ei hadeiladu ac sydd yn parhau i fod yn gaffaeliad tra gwerthfawr yn y pentref.



Un o fechgyn Tal-y-bont

Dymuna Ronald a Linda Roberts ddiolch i bawb a ddaeth i noson dartiau Stevan Southgate yn y Llew Du, Tal-y-bont (fel yr adroddwyd yn rhifyn Medi) ac a gyfrannodd arian i Brian. Gydâ'r arian yma fe brynwyd matras arbennig i wely Brian a fydd yn tyllino ei gorff.

Mae Ronald a Linda wedi eu synnu fod Brian yn dal i gael ei gofio fel un o fechgyn Tal-y-bont.



Enillwyr Cystadleuaeth WCW



Mabli Rose, Ysgol Llangynfelyn a Penri Hughes, Ysgol Gymunedol Tal-y-bont a enillodd gopiau o lyfr nadolig WCW. Roedd y ddau yn gwybod mai Sali Mali oedd yn gwisgo ffröf oren.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

C.Ff.I. Tal-y-Bont a'r Cylch

Ar nos Fawrth gyntaf mis Tachwedd bu'r aelodau'n ymweld a pharlwr godro newydd ar fferm Cwmwythig, Capel Bangor. Llauer o ddiolch iddynt am ein tywys o gwmpas ac am y paned a'r lliniaeth oedd i ddilyn. Y nos Fawrth ganlynol cafwyd cyfarfod i drafod gwahanol weithgareddau ar gyfer y misoedd nesaf. Eleni eto mi fyddwn yn teithio o amgylch ardal aelodau'r clwb yn canu carolau, ar nos Fawrth 11 a 18 Rhagfyr. Mi fydd yr arian yn cael ei rannu rhwng yr elusennau canlynol: NSPCC, Cross Roads Ceredigion, a Ward Gwenllian yn Ysbyty Bronglais.

Bu Enfys Evans, o glwb Llanddeiniol, yn sôn am ei phrofiad yn Rali Ewropeaidd, a gynhaliwyd eleni yn yr Almaen, ar nos Fawrth 20 Tachwedd. Yn dilyn hynny rhanwyd yr aelodau i grwpiau. Un o'r tasgiau oedd adeiladu twr uchel allan o fotel, cardfwrdd, 'pipe cleaners', balloons ayb a gweld pa grwp oedd wedi creu'r twr uchaf. Dyma un o'r ffyrdd roeddent yn dod i adnabod aelodau o wledydd eraill yn ystod y Rali.

Ar ddiwedd y mis cafwyd noson o grefft gyda Meinir Green, Swyddog Bro gogledd y sir. Mi fu'n dangos sut i wneud cardiau nadolig, gan roi cyfle i bawb i greu campwaith ei hun. Nos Lun, 3 Rhagfyr, bu'r aelodau yn cymeryd rhan yng nghwis y sir. Cyhoeddir y canlyniadau dechrau blwyddyn nesaf.

Cyn cychwyn o amgylch i ganu carolau, ar nos Fawrth cyntaf mis Rhagfyr, cawsom ein parti nadolig yn y Vic, Borth. Braff oedd gweld bron i hanner cant o aelodau'r clwb, a ffrindiau, yn o'n mwynhau wedi tymor prysur gyda'r mudiad.

Dyma ganlyniadau Clwb 100 C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch:

Hydref

- £20 Reg Jones, Bron y Garn, Llandre
- £15 Zoe Ann Bailey, d/o Penbanc, Penrhyncoch
- £10 Wyn James, Fronfraith Fach, Comins Coch

Tachwedd

- £20 Huw Edwards, Ger y Coed, Cwm Symlog
- £15 Teulu Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont
- £10 Dafydd Jenkins, Penpompren Uchaf, Tal-y-bont

CSJ

AR Y TELEDU

Gwelwyd seren fach newydd ar y teledu yn ystod darlledu 'Plant Mewn Angen'. Ar Raglen arbennig, ffilmwyd Charlotte Jones, Trewern, Tal-y-bont, sydd yn ddisgybl yn Ysgol Llwyn yr Eos. Dangoswyd hi yn cyrraedd yr ysgol yn y bore ac fe'i dilynwyd o gwmpas yr ysgol gan y camerau. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r profiad, Charlotte.

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?

Iwan Jones, Technogydd Pensoerniol
Gellinannych, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HU
01970 832760

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Agorodd y Cadeirydd, y Cyng. Glenys Edwards, y cyfarfod ar nos Lun y 26ain o Dachwedd drwy estyn croeso cynnes i'w chyd-aelodau ac i'r Heddwes Cymunedol Hefin Jones.

Cyflwynodd Hefin Jones adroddiad o'r datblygiadau diweddaraf yn dilyn y cwynion am y 'rave' a gynhaliwyd yn Esgair Hir yn ystod yr haf. Eglurodd yr hawliau cyfreithiol parthed codi rhwystrau ar draws ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus, a chytunwyd na fyddai hyn yn ateb y galw mewn lleoliad mor agored. Rhoddodd wybodaeth am gynlluniau'r heddlu i gadw golwg ar ddigwyddiadau cyffelyb yn y dyfodol. Cafwyd adroddiad ganddo hefyd o'r sefyllfa gyfreithiol parthed cerbydau 4x4 at ddefnydd hamdden sydd bellach i'w gweld mor fynych yn yr ardal o gwmpas Nant y Moch. Amlinellodd gynlluniau'r heddlu yn ystod y misoedd nesaf i blismona'r camddefnydd a wneir gan rai o'r gyrrwyr hyn. Cyn cloi, rhoddodd adroddiad byr o'r ymarferiad i fesur cyflymder cerbydau ar y ffordd fawr drwy bentref Tal-y-bont i ddangos gwaith yr heddlu i blant yr Ysgol. Braf nodi nad oedd neb wedi'i ddal yn goryrru drwy'r pentref yn ystod yr ymarferiad. Diolchodd y Cadeirydd i Hefin Jones am ei bresenoldeb a'i sylwadau.

Croesawodd y Cyng. Harry James y ddogfen ymgynghorol Cymuned a rennir a gwelai y byddai budd yn deillio o ffurfio dealltwriaeth mwy ffurfiol rhwng y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir. Roedd nifer o'r astudiaethau achos a amlinellwyd yn yr adroddiad yn cynnig awgrymiadau gwerthfawr o'r hyn y gellid ei gynnwys mewn cytundeb ffurfiol. Cytunodd y Cyngor i ymateb yn gadarnhaol i brif argymhellion y ddogfen.

Mewn ymateb i gwynion yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, derbyniwyd llythyr manwl gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Ceredigion ynghylch y newidiadau i'r drefn Pryd ar Glud. Teimlai'r Cynghorwyr nad oedd rhai o'r sylwadau yn y llythyr yn cyd-fynd â'r ymateb negyddol roedd rhai gwirfoddolwyr lleol wedi eu derbyn wrth gludo'r cinio i'r henoed.

Darllenwyd llythyr gan Goronwy Jones yn diolch i'r Cynghorwyr a chyn-Gynghorwyr am drefnu cinio ac anrheg hael iddo ar achlysur ei ymdeoliad fel Clerc. Teimlai'r Cynghorwyr i'r noson fod yn un deilwng i un a wasanaethodd ei gymuned mor ardderchog.

Derbyniwyd llythyr yn cyfeirio at y diffygion yn yr arwyddion

ffordd sy'n dynodi'r system draffig unffordd o flaen y Llew Du a'r Llew Gwyn. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i gysylltu â'r Adran Ffyrdd yn tynnu sylw at y peryglon i yrwyr sy'n troi i mewn yn ddiarwybod i'r A487 o flaen gwesty'r Llew Gwyn.

Derbyniwyd dwy neges yn cwyno am gyflwr truenus wyneb y llwybr rhwng mynedfa Coetmor a chlwyd Allt y Crib. Teimlai'r Cynghorwyr fod y llwybr wedi gwaethygu'n ddirfawr yn ystod y flwyddyn, yn sgil gwaith a wnaed yn y goedwig. Cytunwyd i dynnu sylw'r Uned Llwybrau'r Cyngor Sir at hyn, gan ofyn iddynt sicrhau bod cyflwr y rhan hon o'r llwybr yn cael ei wella. Anfonwyd map gan y Cyngor Sir yn dangos y gwelliannau a wnaed i rai llwybrau cyhoeddus yn y gymuned yn ystod 2006/7. Roedd canmoliaeth uchel i'r gwaith a wnaed, a chytunwyd i anfon llythyr at y Cyngor Sir a Chymdeithas y Cerddwyr i ddiolch iddynt am eu gwaith.

Derbyniwyd adroddiad yr archwilwyr fod y cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2006/7 yn gywir, ac yn unol â'r ddeddf berthnasol caiff y ffurflen ei harddangos ar yr hysbysfwrdd o flaen y Neuadd Goffa hyd ddydd Sul 23 Rhagfyr i ddynodi bod yr archwiliad wedi ei gwblhau.

Adroddodd y Cyng. Ellen ap Gwynn bod Pwyllgor Apêl Lleol wedi ei sefydlu ar gyfer codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sydd i'w chynnal yng Ngheredigion yn 2010. Y targed ar gyfer Ward Ceulanamaesmawr (sef cymunedau Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn a Sguborycoed) yw £8,000. Bydd cais am gymorth gan y Cyngor Cymuned yn cael ei drafod gan yr Is-bwyllgor ariannol ym mis Chwefror.

Cododd y Cyng. Enoc Jenkins y mater o symud ymlaen yn ddiymdroi i blygu'r shety'n ar ffin ogleddol y Fynwent. Pasiwyd i drefnu cyfarfod o Is-bwyllgor y Fynwent i weithredu ar y mater hwn cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

GH

Canlyniad SWDOCW mis diwethaf

Richard Huws, Pantgwyn, Bontgoch – tocyn llyfrau £10.00 iddo ef.
Nawr beth am gynnig ar Swdocw Rhagfyr? Unwaith eto £10.00 o wobr

A DAVIES TRYDANOL
Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys SY20 8SR
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwailt gan Richard
Proficure a Manicure
10am-7pm
Llan-Gwener
(01970) 832 674

Swdocw

Sut i chwarae

Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9.

Enw _____

Cyfeiriad _____

Côd Post _____

Rhif Ffôn _____

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 4 Ionawr.

Gwobr: Tocyn Llyfr £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

5	9	6	2		1			8
1			4	3		5		
		4		8		6		2
		3	1					4
			3	4	8			
2					7	3		
6		5		1		9		
		8		9	3			5
7			6		2	8	4	1

CHWARAEON



Tîm cyntaf Tal-y-bont dan 11 oed sydd wedi cael dechrau addawol i'r tymor

TÎM RYGBI B7 – CEREDIGION

Da iawn chi Luke Davies, Tre'r-ddôl a Richard Bailey, Bontgoch ar gael eich dewis i chwarae yn nhîm rygbi Ceredigion i ddisgyblion B7.

MERCHED HOCI

Yn dilyn treialon hoci yn ddiweddar, dewiswyd Kara Jones, 10 Maes y Deri, Tal-y-bont a Rosemary Bailey, Troedrhwiwseiri, Bontgoch i chwarae i dîm hoci ieuencid Gorllewin a De Cymru. Go dda chi ferched. Y cam nesaf fydd cael eu dewis i chwarae dros Gymru.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.



Dewi a Rhiannon gyda rhai o'r masgiau a ddangoswyd ar y noson.

Clwb Nos Wener – Byd Pws

Daeth tyrfa dda iawn ynghyd eto nos Wener diwethaf, Tachwedd 23ain, i wrando ac i wyllo Dewi Pws yn cyflwyno rhaglen o sleidiau, cerddi a jôcs, gyda chymorth parod ei wraig Rhiannon. Aeth y sleidiau â ni i bedwar ban byd, o'r Arctig i'r India, o Affrica i Fietnam, ac i Tibet ac at odre Everest. Tra'r oedd hiwmor Dewi yn amlwg iawn, yr un mor glir oedd ei gydymdeimlad naturiol â phobl gymharol gyntefig oedd yn byw bywydau gwahanol iawn i ni. Roedd gan Dewi hefyd barch amlwg at yr elfen ysbrydol yn eu bywydau, sydd mor absennol o'n bywydau materol, gorllewinol ni. Ond doedd dim pall ar ei asbri ac fe gawsom rai cerddi doniol a dychanol ganddo yn disgrifio Saeson Tresaith, ble mae Dewi a Rhiannon yn byw nawr.

Mae gan y Clwb raglen lawn ar gyfer 2008, gan cynnwys nosweithiau gan Fflur Dafydd a Jim O'Rourke. Cadwch eich llygaid ar agor am yr hysbysebion yn Papur Pawb. Os am dderbyn gwybodaeth bob mis ar ebost, cofiwch anfon eich cyfeiriad ebost at: robot@yloffa.com.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@yloffa.com



yloffa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
yloffa@yloffa.com
www.yloffa.com